

MAI 2021

LLWYBRAU CELTAIDD
CELTIC ROUTES
BEALAÍ NA gCEILTEACH

# CYLCHLYTHYR LLWYBRAU CELTAIDD

**Croeso i gylchlythyr Llwybrau Celtaidd mis Mai 2021.**

**Isod, gwelwch ddiweddariad ar ein cynnydd hyd yn hyn, newyddion am adnoddau newydd i'ch helpu i wneud y gorau o'r brand Llwybrau Celtaidd, a chynlluniau'r prosiect ar gyfer y dyfodol, sy'n annog teithwyr i ddarganfod ysbryd Celtaidd Cymru ac Iwerddon.**

## CYFLWYNO'R ADDEWID CELTAIDD

Credai'r hen Geltiaid fod hanfod ysbrydol i blanhigion, anifeiliaid a hyd yn oed gwrthrychau difywyd. Ond roeddent hefyd yn cydnabod bod yn rhaid iddynt ddefnyddio natur i oroesi. Dim ond trwy ddod i adnabod a meithrin perthynas llawn parch â'r amgylchedd naturiol y gallent fod wedi gwneud hyn, fel y gallent fyw mewn cytgord ag ef.

Gyda hyn mewn golwg, hoffem annog pob ymwelydd â'n tiroedd hynafol i ddangos parch at yr amgylchedd naturiol trwy ymrwymo i'r Addewid Celtaidd. Mae'r addewid hwn yn seiliedig ar saith egwyddor 'Gadael Dim Olion', sef arferion sy'n sicrhau ein bod yn cael yr effaith leiaf posibl wrth fynd ati mewn modd cyfrifol i fwynhau'r awyr agored.

Os gallwch ymrwymo i'r addewid eich hun, yn ogystal â chynorthwyo ymwelwyr i fodloni telerau'r addewid, yna gorau oll.

Y ffordd honno mae pawb yn ennill – yn enwedig ein tiroedd Celtaidd hardd.

### YR ADDEDWID CELTAIDD

WRTH DEITHIO AR HYD LLWYBRAU CELTAIDD:

Byddaf yn chwilio am antur,
Ac yn barod ar gyfer pob tywydd a digwyddiad posibl.

Byddaf yn defnyddio cludiant cyhoeddus lle gallaf,
A byddaf yn ystyriol o eraill pan fyddaf yn teithio ar fy liwt fy hun

Byddaf yn archwilio natur,
Ac yn cadw pellter parchus er mwyn ei ddiogelu.

Byddaf yn coleddu'r gorffennol,
Ac ni fyddaf yn cymryd yr hyn nad yw'n eiddo i mi.

Byddaf yn gwarchod y presennol,
Ac ni fyddaf yn gadael dim i eraill ei lanhau.

Byddaf yn cerdded yn olion traed yr hen Geltiaid, Gan adael dim olion fy hun.


[Cofrestrwch a gwnewch yr addewid heddiw.]

## CYNNWYS NEWYDD AR Y WEFAN

**Dros yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi bod yn brysur yn uwchraddio ein gwefan gyda llawer o gynnwys newydd, ac mae yna lawer mwy i ddod!**

**Mae'r cylchlythyr hwn eisoes wedi amlinellu ein Haddewid Celtaidd newydd, sydd â'i dudalen bwrpasol ei hun ar ein gwefan, ac isod gallwch ddysgu rhagor am ein llyfrgell delweddau a fideos newydd ar ein tudalen Cysylltiadau Busnes.**

**Rydym hefyd wedi ychwanegu tudalen Pobl a Lleoedd newydd, sy'n cynnwys chwe Stori Geltaidd hynafol – Chwilio am y Twrch Trwyth, Teyrnas Goll Cantre'r Gwaelod, Dewi Sant, y Dearg Due, Sant Colman a'i Hwyaid a Sant Kevin a Glendalough.**




**Ac rydym hefyd wedi ychwanegu chwe fideo hyrwyddo, a ffilmiwyd yn broffesiynol, yn arbennig ar gyfer pob un o'r siroedd, sef Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Wexford, Wicklow a Waterford.**





## Y LLYFRGELL DELWEDDAU A FIDEOS NEWYDD

Wedi'i lansio o'r newydd ar wefan Llwybrau Celtaidd y mae ein llyfrgell asedau rhad ac am ddim, wedi'i chreu i'ch helpu i hyrwyddo eich busnes neu eich sefydliad.

Mae ein llyfrgell asedau yn cynnwys miloedd o ffotograffau a fideos proffesiynol o leoliadau ledled y chwe sir Llwybrau Celtaidd – Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Wexford, Wicklow a Waterford.

Bwriad y llyfrgell asedau yw darparu adnoddau marchnata gweledol o ansawdd uchel a fydd yn eich helpu i gychwyn ar eich taith Llwybrau Celtaidd gyda ni.

I archwilio ein dewis helaeth o ddelweddau a fideos, sgroliwch i waelod tudalen gartref ein gwefan a chliciwch ar y tab tudalen Cysylltiadau Busnes a chofrestrwch i gael mynediad, lle byddwch yn rhydd i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, ar yr amod eich bod yn cadw at y Telerau Defnyddio ac yn cydnabod Llwybrau Celtaidd.

Mwy o wybodaeth yma.

## SYLW YN DILYN TEITHIAU'R WASG A PHARTNERIAETHAU Â DYLANWADWYR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL








Fel rhan o'n hymgyrch cyswllt â'r cyfryngau i hyrwyddo Llwybrau Celtaidd, rydym yn gweithio gyda dwsinau o newyddiadurwyr cenedlaethol a dylanwadwyr y cyfryngau cymdeithasol i hywryddo Llwybrau Celtiadd i gynulleidfaoedd yr ydym yn gwybod eu bod wrth eu bodd yn darllen am gyrchfannau teithio sy'n eu hysbrydoli.

Yn anffodus, yn 2020 cafodd bron pob un o deithiau'r wasg a gynlluniwyd gennym eu canslo. Fodd bynnag, un daith a gafodd ei chynnal ym mis Hydref oedd honno gyda'r *i newspaper*, a ymwelodd â siroedd Llwybrau Celtaidd Cymru rhwng y cyfnodau clo.


Cyhoeddwyd yr erthygl a ddeilliodd o'r daith mewn print, ar ffurf tudalen ddwbl hardd, ac ar-lein, ddiwedd mis Mawrth 2021 wrth i'r cyfyngiadau ar deithio ddechrau llacio ledled Cymru.

Ac ar ddechrau mis Mai aeth ein partneriaeth ddigidol â'r blogiwr teithio o Iwerddon, All About Rosa Lilla, yn fyw. Cyhoeddodd Rosa ddau flog am Llwybrau Celtaidd – un am Iwerddon, ac un am Gymru, ynghyd â thoreth o gynnwys i'r cyfryngau cymdeithasol ar draws Facebook, Instagram a Twitter, a ddenodd ymateb ardderchog.

Nawr bod y cyfyngiadau ar deithio yn cael eu llacio mwy a mwy, rydym yn brysur yn trefnu sawl taith arall i'r wasg gyda phapurau megis *The Telegraph* a llawer mwy o deitlau'r cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol. Byddwn yn rhoi diweddariad arall yn ein cylchlythyr nesaf!





## Y GYNGRES GELTAIDD

**A ydych yn defnyddio eich hunaniaeth Gymraeg neu Geltaidd i hyrwyddo eich busnes?**

Hoffai'r Gyngres Geltaidd Ryngwladol, sydd ag aelodau ledled y cenhedloedd Celtaidd a thu hwnt, glywed gan fusnesau sy'n gweithredu'n llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg (neu ieithoedd Celtaidd eraill) i arddangos mewn fersiwn ar-lein o'i chynhadledd flynyddol, a gynhelir eleni gan Gymru ar y thema 'Sut i fod yn Geltaidd mewn modd Llwyddiannus yn y Byd Busnes Modern'.


Os oes gennych stori ddiddorol i'w hadrodd, rydych yn falch o'ch hunaniaeth Gymraeg neu Geltaidd, a gallech o bosibl gyflwyno'n ddwyieithog, yna ewch i www.internationalcelticcongress.org/en/annual-conference/ i gael rhagor o wybodaeth am sut i gymryd rhan.

www.internationalcelticcongress.org/en/annual-conference/

## LLWYBRAU CELTAIDD AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**Rydym yn postio cynnwys sawl gwaith yr wythnos ar draws Facebook, Instagram a Twitter, a byddai eich cefnogaeth ar y cyfryngau cymdeithasol yn helpu i gynyddu nifer ein dilynwyr ac yn cynorthwyo o ran denu ymwelwyr i'n tiroedd Celtaidd.**

**Dilynwch a gwnewch sylw ar bostiadau cyfryngau cymdeithasol Llwybrau Celtaidd a rhannwch y cynnwys ar eich cyfryngau chithau hefyd.**




@CelticRoutes

@CelticRoutes

@CelticRoutes

**#LlwybrauCeltaidd**
**#FyEiliadCeltaidd**
**#CelticRoutes**